Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

Special Educational Needs Tribunal for Wales

Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

Adroddiad Blynyddol

2013 – 2014

Ebrill 2015

Cynnwys

Rhagair		3
Adran 1	Amdanom Ni	4
Adran 2	Perfformiad a Chynnydd	7
Adran 3	Ein Cwsmeriaid	25
Adran 4	Gwariant	27

Rhagair

Gan y Llywydd Rhiannon Walker

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy unfed Adroddiad Blynyddol ar ddeg fel Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am weithgareddau'r Tribiwnlys ar gyfer y flwyddyn 1 Medi 2013 i 31 Awst 2014.

Rwyf yn falch iawn bod yr hawl i blant apelio a/neu ddwyn hawliad am wahaniaethu ar sail anabledd i'r Tribiwnlys yn cael ei ymestyn i bob plentyn yng Nghymru a bod yr hawl honno'n cael ei dwyn ymlaen i fis Ionawr 2015. Rydym yn hyderus, os bydd pob parti yn croesawu'r hawl newydd hon, y bydd yn creu perthynas weithio agosach rhwng Awdurdodau Lleol (ALl) a'u defnyddwyr a fydd er budd pawb.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cwblhau'r gwaith o dreialu gwrandawiadau papur ac mae wedi bod yn llwyddiant mawr. Mae awdurdodau lleol a rhieni wedi'i ddefnyddio ac wedi gwerthfawrogi cael hwn fel dewis arall yn lle gwrandawiad llafar. Rydym wedi cael 7 cais yn ystod y flwyddyn yn gofyn bod apêl yn cael ei phenderfynu ar sail y papurau. Y fantais fwyaf o safbwynt y drefn hon, lle mae Apêl/Hawliad yn addas ar gyfer gwrandawiad papur, yw'r amser a'r gost y mae'n ei arbed i'r holl bartïon. O'r 7 cais cychwynnol hyn, aeth 1 apêl ymlaen i wrandawiad papur. Yng nghyswllt y gweddill, nid oedd gan yr ALl wrthwynebiad i 5 ohonynt ac roedd y rhiant wedi tynnu 1 yn ôl. Yn ogystal, cynhaliodd y Tribiwnlys 2 wrandawiad papur ychwanegol, 1 mewn perthynas â Hawliad oedd yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd, ac 1 penderfyniad i ddileu.

Yn dilyn y peilot llwyddiannus a gynhaliwyd gan TAAAC y llynedd oedd yn ymwneud â chwblhau apeliadau Gwrthod i Asesu o fewn 10 wythnos yn hytrach nag 20, rwyf yn falch o ddweud, yn sgil newidiadau gweinyddol, mai dyma fydd y broses barhaol ar gyfer apeliadau fel hyn.

Bydd y flwyddyn i ddod hefyd yn flwyddyn heriol o ran yr hawliau newydd i blant. Ond, gyda chymorth cadeiryddion, aelodau lleyg ac ysgrifenyddiaeth ymroddedig ac ardderchog TAAAC, rwyf yn hyderus y bydd y Tribiwnlys yn delio â nhw mewn modd proffesiynol a llwyddiannus. Rydym ni yn y Tribiwnlys yn teimlo'n gyffrous iawn ynghylch y newidiadau hyn a byddwn yn archwilio ffyrdd y gallwn wella eto ar ein gwasanaethau i'n defnyddwyr.

Adran 1 – Gwybodaeth amdanom ni

Yn yr adran hon:

- **Cefndir**
- **Trosolwg**
- **Aelodau'r Tribiwnlys**
- **Cysylltu â'r Tribiwnlys**

Cefndir

Mae Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) yn gwrando ac yn penderfynu ar apeliadau sy'n ymwneud â phlant ag anghenion addysgol arbennig. Rhieni sy'n gwneud yr apeliadau, sydd yn erbyn rhai penderfyniadau penodol y mae'r awdurdod lleol (ALl) wedi'i gwneud ynglŷn ag addysg plentyn. Mae'r Tribiwnlys hefyd yn gwrando ar hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion yng Nghymru.

Mae TAAAC, aelodau ei dribiwnlysoedd a'u penderfyniadau yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac ALl ac mae ein penderfyniadau yn gyfreithiol rwymol. Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r Tribiwnlys a'i gefnogaeth weinyddol.

Er gwanwyn 2012, mae plant a phobl ifanc sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin a Wrecsam wedi bod yn gallu gwneud apeliadau a hawliadau drostynt eu hunain. Yn dilyn y prosiect peilot llwyddiannus, mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi cyhoeddi y bydd yr hawl i blant apelio/wneud hawliad i TAAAC yn cael ei ymestyn i holl blant Cymru o 5 Ionawr 2015 ymlaen.

Rheoliadau gweithdrefnol y Tribiwnlys yw Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012.

Trosolwg

Prif amcan y Tribiwnlys yw delio ag achosion mewn ffordd deg a chyfiawn. Mae'r Tribiwnlys yn disgwyl i rieni, cynrychiolwyr, swyddogion Awdurdodau Lleol a Chyrff Cyfrifol helpu i hyrwyddo'r prif amcan drwy gydweithredu â'i gilydd a'r Tribiwnlys er mwyn bwrw ymlaen â'r apêl neu'r hawliad.

Mewn Gwrandawiad mae panel y tribiwnlys yn cynnwys Cadeirydd sy'n gyfreithiol gymwys a dau Aelod o fyd Addysg. Mae'r Aelodau o fyd Addysg wedi cael eu penodi oherwydd eu harbenigedd cyffredinol a'u gwybodaeth am y byd addysg.

Fel arfer caiff Gwrandawiadau Tribiwnlys eu cynnal yn breifat mewn lleoliad sy'n agos at gartref y ceisydd. Wrth wneud y trefniadau ar gyfer y Gwrandawiad, mae gofynion arbennig y rheini a fydd yn bresennol yn cael eu hystyried, er enghraifft mynediad i gadair olwyn ayyb.

Mae'r Tribiwnlys yn cynnig gwasanaeth cytbwys yn Gymraeg a Saesneg.

Aelodau'r Tribiwnlys

Yr Arglwydd Ganghellor sy'n gyfrifol am benodi ac ailbenodi Llywydd a Chadeiryddion. Gweinidogion Cymru sy'n penodi Aelodau'r Panel o fyd Addysg.

Llywydd	Y Llywydd sy'n gyfrifol am reolaeth farnwrol gyffredinol y Tribiwnlys.
Cadeiryddion	Rheolir gwrandawiadau'r tribiwnlys gan gadeirydd, ac mae'n rhaid iddo fod yn gyfreithiol gymwys. Bydd yn ysgrifennu ac yn llofnodi penderfyniadau, yn rhoi gwybod am ohiriadau ac yn pennu cyfarwyddiadau lle bo angen.
Aelodau'r Panel o Fyd Addysg	Mae Aelodau'r Panel o fyd Addysg yn dod ag ystod eang o brofiadau a gwybodaeth berthnasol i bob Gwrandawiad. Maent yn eistedd mewn achosion sy'n ymwneud ag Apeliadau Anghenion Addysgol Arbennig a Hawliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd.
Yr Ysgrifenyddiaeth	Yr Ysgrifenyddiaeth sy'n gyfrifol am y gwaith gweinyddol o ddydd i ddydd. Mae'n delio â'r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu ceisiadau i'r Tribiwnlys. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn ymgynghori â'r Llywydd ar unrhyw bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod apeliadau neu hawliadau ac yn trosglwyddo Cyfarwyddiadau'r Llywydd yn ysgrifenedig i'r partïon yn yr achos. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn bwynt cyswllt ar gyfer y Llywydd, Aelodau a phartïon yn yr achos ac mae clerc yn bresennol ym mhob Gwrandawiad i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn effeithlon.

Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru



Penodiadau

Ni wnaed unrhyw benodiadau newydd i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn ystod y cyfnod adrodd. Ond adnewyddwyd penodiadau'r Llywydd ac 8 aelod arall yn ystod blwyddyn y Tribiwnlys ac roedd 1 aelod wedi ymddiswyddo.

Hyfforddi ac Arfarnu

Cynhaliwyd cynhadledd hyfforddi i aelodau ym mis Hydref 2013. Arfarnwyd holl aelodau'r tribiwnlys ond dau yn ystod y cyfnod adrodd. Bydd y 2 aelod sydd ar ôl yn cael eu harfarnu yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

Cysylltu â'r Tribiwnlys

Dyma fanylion cyswllt TAAAC:

Cyfeiriad y Tribiwnlys:	Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru Adeiladau'r Llywodraeth Spa Road East Llandrindod Powys LD1 5HA
Llinell Gymorth y Tribiwnlys:	01597 829800
Ffacs y Tribiwnlys:	01597 829801
E-bost y Tribiwnlys:	tribunalenquiries@wales.gsi.gov.uk

Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon:

- **Niferoedd ac Ystadegau**
- **Apeliadau pellach**
- **Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol**
- **Cwynion**

Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn y Tribiwnlys yn rhedeg o fis Medi i fis Awst. Dyma'r ystadegau a gaiff eu casglu:

Apeliadau a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw yn ôl blwyddyn	Siart 2.1	Tudalen 8
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2013-2014 yn ôl y math o apêl	Tabl 2.2	Tudalen 9
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2013-2014 yn ôl awdurdod lleol	Tabl 2.3	Tudalen 10
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2013-2014 yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 1)	Tabl 2.4	Tudalen 11
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2013-2014 yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 2)	Tabl 2.4	Tudalen 12
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2013-2014 yn ôl awdurdod lleol a phoblogaeth ysgol	Siart 2.5	Tudalen 13
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2013-2014 yn ôl oedran ysgol a'r math o apêl	Tabl 2.6	Tudalen 14
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2013-2014 yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol	Tabl 2.7	Tudalen 15
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2013-2014 yn ôl angen addysgol arbennig	Siart 2.8	Tudalen 16
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2013-2014 yn ôl rhyw	Siart 2.9	Tudalen 17
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2013-2014 yn ôl tarddiad ethnig	Siart 2.10	Tudalen 17
Apeliadau yn ôl canlyniad	Tabl 2.11	Tudalen 18
Apeliadau yn ôl canlyniad a math (Rhan 1)	Tabl 2.12	Tudalen 19
Apeliadau yn ôl canlyniad a math (Rhan 2)	Tabl 2.12	Tudalen 19
Apeliadau yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol	Tabl 2.13	Tudalen 20

Hawliadau a gofrestrwyd ac yr ymdriniwyd â nhw yn ôl blwyddyn	Siart 2.14	Tudalen 21
Hawliadau yn ôl canlyniad	Siart 2.15	Tudalen 21
Ceisiadau llywyddol yn ystod 2013-2014	Siart 2.16	Tudalen 22

Siart 2.1 Apeliadau a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw fesul blwyddyn



Yn ystod cyfnod adrodd 2013-2014, derbyniwyd 15 apêl, ond ni chawsant eu cofrestru. Yng nghyswllt yr apeliadau hynny oedd heb eu cofrestru, roedd 8 ohonynt wedi cael eu dileu ac roedd 7 ohonynt wedi cael eu tynnu'n ôl cyn eu cofrestru.

O'r 84 apêl yr ymdriniwyd â nhw yn ystod cyfnod adrodd 2013-2014, roedd 19 o'r rhain yn apeliadau oedd wedi'u cario drosodd o'r cyfnod adrodd blaenorol.

[1] Ystyr achos 'heb ei gofrestru' yw achos y mae'r tribiwnlys yn ei dderbyn ond sy'n cael ei dynnu'n ôl neu ei ddileu cyn ei gofrestru; gall hyn fod oherwydd bod yr achos y tu hwnt i awdurdodaeth y tribiwnlys.

Tabl 2.2 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2013-2014 yn ôl y math o apêl

Mae'r tabl isod yn dangos y nifer a'r math o apeliadau a gofrestrwyd gan y tribiwnlys yn ystod 2013-2014 o gymharu â 2012-2013.

Math o Apêl	2013-2014		2012-2013	
	Cyfanswm yr Apeliadau 78		Cyfanswm yr Apeliadau 73	
Gwrthod Asesu	26	33%	21	29%
Gwrthod rhoi Datganiad	10	13%	10	14%
Gwrthod Ailasesu	1	1%	0	0%
Dirwyn Datganiad i Ben	2	3%	1	1%
Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	10	13%	16	22%
Cynnwys datganiad Rhannau 2, 3 a 4	18	23%	16	22%
Cynnwys Datganiad Rhan 3 yn unig	4	5%	3	4%
Cynnwys Datganiad Rhan 4 yn unig	5	6%	4	5%
Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	2	3%	2	3%

Tabl 2.3 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2013-2014 yn ôl awdurdod lleol

Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr apeliadau a gofrestrwyd dros ddwy flynedd ddiwethaf y tribiwnlys yn ôl awdurdod lleol.

	2013-2014		2012-2013	
	Nifer yr Apeliadau	Canran yr Apeliadau	Nifer yr Apeliadau	Canran yr Apeliadau
Blaenau Gwent	2	3	1	1
Pen-y-bont ar Ogwr	1	1	3	4
Caerffili	3	4	1	1
Caerdydd	7	9	8	11
Sir Gaerfyrddin	0	0	2	3
Ceredigion	4	5	1	1
Conwy	4	5	3	4
Sir Ddinbych	0	0	2	3
Sir y Fflint	1	1	2	3
Gwynedd	1	1	0	0
Merthyr Tudful	1	1	0	0
Sir Fynwy	4	5	2	3
Castell-nedd Port Talbot	3	4	7	10
Casnewydd	11	14	20	27
Sir Penfro	3	4	1	1
Powys	4	5	1	1
Rhondda Cynon Taf	8	10	3	4
Abertawe	10	13	13	18
Torfaen	4	5	0	0
Bro Morgannwg	5	6	2	3
Wrecsam	0	0	0	0
Ynys Môn	2	3	1	1
Cyfansymiau	**78**	**100**	**73**	**100**

Tabl 2.4 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2013-2014 yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 1)

	Gwrthod asesu	Gwrthod rhoi Datganiad	Gwrthod Ailasesu	Peidio â Pharhau
Blaenau Gwent	2	0	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	0	0	0	0
Caerffili	1	0	1	0
Caerdydd	0	1	0	0
Sir Gaerfyrddin	0	0	0	0
Ceredigion	0	0	0	0
Conwy	1	1	0	1
Sir Ddinbych	0	0	0	0
Sir y Fflint	0	0	0	0
Gwynedd	0	1	0	0
Merthyr Tudful	1	0	0	0
Sir Fynwy	1	2	0	0
Castell-nedd Port Talbot	0	1	0	0
Casnewydd	5	1	0	0
Sir Penfro	3	0	0	0
Powys	1	1	0	0
Rhondda Cynon Taf	3	0	0	0
Abertawe	4	1	0	0
Torfaen	3	0	0	0
Bro Morgannwg	1	0	0	0
Wrecsam	0	0	0	0
Ynys Môn	0	1	0	1
Cyfansymiau	**26**	**10**	**1**	**2**

Tabl 2.4 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2013-2014 yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 2)

	Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	Cynnwys datganiad Rhannau 2, 3 a 4	Cynnwys Datganiad Rhan 3	Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	Cynnwys Datganiad Rhan 4
Blaenau Gwent	0	0	0	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	1	0	0	0	0
Caerffili	0	1	0	0	0
Caerdydd	4	2	0	0	0
Sir Gaerfyrddin	0	0	0	0	0
Ceredigion	0	3	1	0	0
Conwy	0	0	0	1	0
Sir Ddinbych	0	0	0	0	0
Sir y Fflint	0	0	0	0	1
Gwynedd	0	0	0	0	0
Merthyr Tudful	0	0	0	0	0
Sir Fynwy	0	1	0	0	0
Castell-nedd Port Talbot	0	2	0	0	0
Casnewydd	1	0	3	1	0
Sir Penfro	0	0	0	0	0
Powys	1	0	0	0	1
Rhondda Cynon Taf	2	3	0	0	0
Abertawe	0	2	0	0	3
Torfaen	0	1	0	0	0
Bro Morgannwg	1	3	0	0	0
Wrecsam	0	0	0	0	0
Ynys Môn	0	0	0	0	0
Cyfansymiau	**10**	**18**	**4**	**2**	**5**

Siart 2.5 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2013-2014 yn ôl awdurdod lleol a phoblogaeth ysgol



Tabl 2.6 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2013-2014 yn ôl oedran ysgol a'r math o apêl

	Nifer yr Apeliadau			
	Meithrin	Cynradd	Trosglwyddo o'r Cynradd	Uwchradd
Gwrthod Asesu	1	18	0	7
Gwrthod rhoi Datganiad	0	7	0	3
Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	0	7	0	3
Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4	0	7	2	9
Cynnwys Datganiad Rhan 3	0	3	0	1
Cynnwys Datganiad Rhannau 3 & 4	0	1	0	1
Cynnwys Datganiad Rhan 4	1	1	1	2
Gwrthod Ailasesu	0	1	0	0
Peidio parhau â Datganiad	0	2	0	0

Tabl 2.7 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2013-2014 yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol

	Nifer yr Apeliadau			
	Meithrin	Cynradd	Trosglwyddo o'r Cynradd	Uwchradd
Blaenau Gwent	0	1	0	1
Pen-y-bont ar Ogwr	0	1	0	0
Caerffili	0	3	0	0
Caerdydd	0	4	1	2
Sir Gaerfyrddin	0	0	0	0
Ceredigion	0	2	0	2
Conwy	0	1	0	3
Sir Ddinbych	0	0	0	0
Sir y Fflint	0	0	1	0
Gwynedd	0	1	0	0
Merthyr Tudful	0	0	0	1
Sir Fynwy	0	3	0	1
Castell-nedd Port Talbot	0	2	0	1
Casnewydd	0	9	0	2
Sir Penfro	1	1	0	1
Powys	0	3	0	1
Rhondda Cynon Taf	0	4	0	4
Abertawe	1	6	0	3
Torfaen	0	3	1	0
Bro Morgannwg	0	2	0	3
Wrecsam	0	0	0	0
Ynys Môn	0	2	0	0

Siart 2.8 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2013-2014 yn ôl angen addysgol arbennig



Siart 2.9 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2013-2014 yn ôl rhyw



Siart 2.10 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2013-2014 yn ôl tarddiad ethnig



Tabl 2.11 Apeliadau yn ôl canlyniad

	2013-2014		2012-2013	
	Gwirioneddol	Canran	Gwirioneddol	Canran
Caniatáu	29	30	27	26
Tynnu'n ôl	35	37	31	30
Cadarnhau'n Llawn	7	7	15	15
Cadarnhau'n Rhannol	11	11	6	6
Gwrthod	1	1	3	3
Dychwelyd[2]	1	1	0	0
Dileu	0	0	1	1
Yn aros penderfyniad	13	13	19	19
Cyfanswm	**97**	**100**	**102**	**100**

[2] Caiff achos ei ddychwelyd pan fydd panel tribiwnlys yn penderfynu y dylid anfon achos yn ôl at yr Awdurdod Lleol er mwyn iddo ailystyried ei benderfyniad gwreiddiol ynghylch y mater.

Tabl 2.12 Apeliadau yn ôl canlyniad a math (Rhan 1)

	Gwrthod asesu	Gwrthod rhoi Datganiad	Gwrthod ailasesu	Peidio â Pharhau
Caniatáu	20	6	1	0
Tynnu'n ôl	5	3	0	1
Cadarnhau'n Llawn	1	0	0	0
Cadarnhau'n Rhannol	0	0	0	0
Gwrthod	0	1	0	0
Dychwelyd	0	1	0	0
Dileu	0	0	0	0
Yn aros penderfyniad	1	3	0	1
Cyfanswm	**27**	**14**	**1**	**2**

Tabl 2.12 Apeliadau yn ôl canlyniad a math (Rhan 2)

	Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	Cynnwys datganiad Rhannau 2, 3 a 4	Cynnwys Datganiad Rhan 3	Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	Cynnwys Datganiad Rhan 4
Caniatáu	0	0	0	0	2
Tynnu'n ôl	7	13	1	2	3
Cadarnhau'n Llawn	0	5	1	0	0
Cadarnhau'n Rhannol	5	5	1	0	0
Gwrthod	0	0	0	0	0
Dychwelyd	0	0	0	0	0
Dileu	0	0	0	0	0
Yn aros penderfyniad	2	4	2	0	0
Cyfanswm	**14**	**27**	**5**	**2**	**5**

Tabl 2.13 Apeliadau yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol

	Nifer yr Apeliadau						
	Caniatáu	Tynnu'n ôl	Cadarnhau'n llawn	Cadarnhau'n rhannol	Gwrthod	Dychwelyd	Aros am benderfyniad
Blaenau Gwent	2	1	0	0	0	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	0	0	0	2	0	0	0
Caerffili	2	1	0	0	0	0	0
Caerdydd	1	5	0	2	0	1	1
Sir Gaerfyrddin	0	0	1	0	0	0	0
Ceredigion	0	1	1	2	0	0	1
Conwy	0	2	1	0	0	0	1
Sir Ddinbych	0	0	0	0	0	0	0
Sir y Fflint	0	1	0	0	0	0	0
Gwynedd	1	0	0	0	0	0	0
Merthyr Tudful	1	0	0	0	0	0	0
Sir Fynwy	1	1	1	0	1	0	0
Castell-nedd Port Talbot	1	3	0	0	0	0	2
Casnewydd	2	8	2	2	0	0	1
Sir Penfro	3	0	0	0	0	0	0
Powys	1	2	0	1	0	0	1
Rhondda Cynon Taf	2	5	1	2	0	0	1
Abertawe	8	2	0	0	0	0	1
Torfaen	3	1	0	0	0	0	0
Bro Morgannwg	1	2	0	0	0	0	2
Wrecsam	0	0	0	0	0	0	0
Ynys Môn	0	0	0	0	0	0	2

Siart 2.14 Hawliadau a gofrestrwyd ac yr ymdriniwyd â nhw yn ôl blwyddyn



Yng nghyswllt y ffigurau ar gyfer 2013-2014, mae 2 o'r apeliadau yr ymdriniwyd â nhw yn apeliadau a oedd wedi'u cario drosodd o gyfnod adrodd 2012-2013.

Siart 2.15 Hawliadau yn ôl canlyniad



Derbyniwyd a chofrestrwyd 11 hawliad yn ystod 2013-2014. Cariwyd 2 hawliad drosodd o 2012-2013. Ymdriniwyd ag 11 hawliad ac roedd 2 yn aros am benderfyniad, i'w cario drosodd i 2014-2015.

Siart 2.16 Ceisiadau llywyddol yn ystod 2013-2014



Gwrandawiadau

Yn y cyfnod rhwng Medi 2013 ac Awst 2014, aeth 21 apêl a 7 hawliad ymlaen i wrandawiad tribiwnlys, gan gynnwys 1 apêl a dynnwyd yn ôl yn y gwrandawiad ac 1 apêl a ddychwelwyd i'r Awdurdod Lleol. Trefnwyd 41 diwrnod o wrandawiadau ar gyfer y tribiwnlys yn y cyfnod hwn. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys gwrandawiadau rhagarweiniol a gwrandawiadau a ohiriwyd ar ddiwrnod y gwrandawiad. Trefnwyd 40 diwrnod arall ar gyfer gwrandawiadau ond yna cawsant eu canslo. Yn ogystal, cynhaliwyd 3 gwrandawiad papur a 6 chynhadledd rheoli achos dros y ffôn.

Apeliadau pellach

Gellir gwneud cais am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad i'r Uwch Dribiwnlys ar rhai seiliau cyfyngedig. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, ni wnaed unrhyw geisiadau am ganiatâd.

Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro pa mor effeithiol y mae gwasanaethau yn cael eu darparu, mae gennym ddangosyddion perfformiad allweddol sydd â'r nod o fesur dwy agwedd allweddol ar ein busnes; effeithlonrwydd ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth drwy fodlonrwydd cwsmeriaid.

Er mwyn mesur pa mor effeithlon yw ein gwasanaeth, mae gennym gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymerir i brosesu achos – o'r adeg y bydd cais yn cyrraedd i'r adeg y cynhelir y gwrandawiad neu y gwneir penderfyniad.

Er mwyn mesur bodlonrwydd cwsmeriaid, defnyddiwyd dangosydd sy'n deillio o arolygon cyfnodol o ddefnyddwyr y tribiwnlys.

Effeithlonrwydd ein gwasanaeth

Targed: delio â 95% o ymholiadau cyn cofrestru cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn yr Hysbysiad o Apêl.	→	Cyrraedd y Targed yn 100% o achosion
Targed: cofrestru 95% o Apeliadau AAA cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn yr Hysbysiad o Apêl.	→	Cyrraedd y Targed yn 98% o achosion
Targed: cyhoeddi 75% o benderfyniadau cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl y gwrandawiad.	→	Cyrraedd y Targed yn 72% o achosion
Targed: ymdrin â 75% o apeliadau AAA o fewn 20 wythnos.	→	Cyrraedd y Targed yn 96% o achosion

Cwynion

Ni chafodd y Tribiwnlys unrhyw gwynion ffurfiol yn ystod y flwyddyn.

Adran 3 – Ein Cwsmeriaid

Yn yr adran hon:

- **Arolwg o fodlonrwydd defnyddwyr y Tribiwnlys**
- **Cyfarfodydd y Grŵp Defnyddwyr**

Arolwg o fodlonrwydd defnyddwyr y Tribiwnlys

Mae ysgrifenyddiaeth y tribiwnlys yn gwneud ei gorau i wella'r modd y darperir gwasanaethau i ddefnyddwyr y tribiwnlys a'r nod yw sicrhau bod ein defnyddwyr wrth wraidd popeth a wnawn.

Ar ôl cwblhau apeliadau/hawliadau, mae ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys yn cynnal arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid. Mae canlyniadau'r arolwg yn ein galluogi ni i ddeall yn well anghenion ein cwsmeriaid ac yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar ble mae'r tribiwnlys yn perfformio'n dda yn ogystal a thynnu sylw at feysydd y gallai'r Tribiwnlys eu gwella.

Derbyniodd ysgrifenyddiaeth y tribiwnlys 18 arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid wedi'u llenwi yn ystod 2013-2014. Rydym yn casglu gwybodaeth ynglŷn â'r meysydd canlynol.

Cyfathrebu

Dywedodd 94% ein bod yn ymateb yn brydlon. Dywedodd 100% ein bod yn gwrtais ac yn barod i helpu. Dywedodd 83% fod y wybodaeth roedden ni wedi'i rhoi yn gywir ac yn glir. Roedd 12% yn anghytuno a 5% ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Gwasanaeth

Dywedodd 100% eu bod yn gallu deall y broses, gydag 86% yn dweud bod y taflenni canllaw roeddem ni wedi'u darparu yn ddefnyddiol. Roedd 7% yn anghytuno, ac roedd 7% arall ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Dywedodd 100% ein bod wedi prosesu eu cais yn effeithlon.

Gwrandawiad

O'r 18 o ymatebion a gawsom, nid oedd 3 achos wedi cyrraedd gwrandawiad. O'r 15 achos a ddaeth yn destun gwrandawiad, dywedodd 91% eu bod yn fodlon ar leoliad y gwrandawiad, a dywedodd y 9% oedd ar ôl nad oeddynt yn fodlon. Dywedodd 100% bod ein staff wedi bod yn gwrtais ac yn barod i helpu yn y gwrandawiad.

Gwefan

Dywedodd 42% bod y wefan yn ddefnyddiol, dywedodd y 58% oedd yn weddill nad oeddynt wedi defnyddio'r wefan.

Cyfarfodydd y Grŵp Defnyddwyr

Cynhaliodd y Tribiwnlys Gyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr rhanbarthol ar 18 ac 20 Tachwedd 2013 ac ar 30 Mehefin a 2 Gorffennaf 2014. Cafwyd presenoldeb da ynddynt o blith ein rhanddeiliaid, sy'n cynnwys swyddogion yr Awdurdod Lleol, rhieni, grwpiau cymorth partneriaethau, mudiadau'r sector gwirfoddol a chynrychiolwyr cyfreithiol.

Ymysg y papurau a'r eitemau a drafodwyd roedd y Prosiect Ymchwil y Peilot Plant, cynigion ynghylch deddfwriaeth Anghenion Addysgol Ychwanegol ac Adroddiad Blynyddol y Tribiwnlys ar gyfer 2012-2013.

Mae gwybodaeth am Gyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr y Tribiwnlys ar gael ar ein Gwefan www.sentw.gov.uk. Os hoffech chi fod yn bresennol yng nghyfarfodydd grŵp defnyddwyr TAAAC, cysylltwch â'r ysgrifenyddiaeth.

Adran 4 – Gwariant

Yn yr adran hon:

- **Gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-2014**

Gwariant	**2013-2014**
Ffioedd a Threuliau'r aelodau yn sgil achosion tribiwnlys	£98,159.22
Digwyddiadau'r Tribiwnlys (costau gwrandawiadau)	£30,328.85
Cyfanswm	**£128,488.07**

OGL ISBN digidol 978 1 4734 3068 6 © Hawlfraint y Goron 2015 WG25109